# Archwiliwr Amgueddfa

## Canolfan Ddarganfod Clore a Thu Hwnt

national museum cardiff
amgueddfa genedlaethol caerdydd

Mae gan bob gwrthrych yng Nghanolfan Ddarganfod Clore stori i'w hadrodd.

Archwiliwch yr orielau Archaeoleg, Gwyddorau Natur a Chelf i ddarganfod mwy.

Wedi cyrraedd adref, beth am ysgrifennu stori ddychmygol am eich hoff wrthrych?

Enw ______________________



Allwch chi weld fy nghefnder o Iwerddon yn oriel Esblygiad Cymru?

Mae ganddo gyrn mwy na fi hyd yn oed!

# Esgyrn a Sgerbydau

## Oriel Hanes Natur



Mae nifer o esgyrn anifeiliaid i'w darganfod yng Nghanolfan Ddarganfod Clore. Allwch chi weld yr asgwrn morfil mawr? Beth yw ei enw cywir?

F_______ yw'r asgwrn hwn

Mae'n dod o forfil _______

You'll see lots more animal skeletons in the natural history galleries. Examine this collection then draw and label three skeletons.

# Pryfed

## Oriel y Byd Naturiol

Edrychwch yn ofalus ar y gwrthrychau yng Nghanolfan Ddarganfod Clore.

Pa nodweddion sydd gan bob pryfyn?
Dewiswch y tair nodwedd gywir ar gyfer y pryfyn.



# Tebotau

## Celf ar y balconi

Sawl tebot allwch chi eu gweld yng Nghanolfan Ddarganfod Clore (mae rhai ohonyn nhw yn y droriau!).

Mae mwy fyth o debotau i'w gweld ar y llawr cyntaf yn yr Amgueddfa.

Dychmygwch bod eich hoff berson yn dod i de. Edrychwch ar rai o'r tebotau a dylunio'r tebot fyddech chi'n ei ddefnyddio.

Tynnwch lun eich tebot arbennig yma, rydyn ni wedi tynnu llun y pig yn barod i chi.



Pa enw fyddech chi'n ei roi i'r tebot yma?

# Cregyn

## Orielau morol

Mae llawer o gregyn yng Nghanolfan Ddarganfod Clore. Ewch i fyny'r grisiau i'r oriel forol. Edrychwch ar yr arddangosiad cregyn.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| w | e | d | b | s | a | ng | n | m | l | ll | g |
| th | c | e | ph | a | l | o | p | o | d | o | ch |
| d | u | u | b | m | l | a | ng | m | ch | b | w |
| c | e | f | h | a | n | o | p | l | d | f | ff |
| o | l | a | a | r | p | e | y | l | n | m | l |
| m | o | l | w | s | g | f | s | l | p | e | ph |
| w | l | f | m | i | n | e | t | o | a | u | i |
| l | b | o | b | e | s | s | u | s | c | c | w |
| e | ll | f | g | a | s | t | r | o | p | o | d |
| d | ff | a | o | p | o | r | t | s | a | g | c |
| t | r | o | s | u | s | s | y | b | n | m | ng |
| c | s | w | y | s | i | m | n | w | i | y | ll |

Ticiwch bob un o'r geiriau yma am gregyn wrth eu canfod yn yr oriel ac yn y croesair.

Gastropod Molwsg Deufalf Cephalopod
Cragen fylchog Cocosen Byssus



# Gwreiddiau

## Y Rhufeiniaid

Gallwch chi drin nifer o arteffactau o oes y Rhufeiniaid yng Nghanolfan Ddarganfod Clore.

Allwch chi weld y gwrthrychau Rhufeinig yma?







Yn oriel **archaeoleg** 'Gwreiddiau' mae mwy fyth o arteffactau Rhufeinig gafodd eu darganfod yma yng Nghymru. Archwiliwch y gwrthrychau a tynnu llun eich tri ffefryn.

Pwrpas Archaeoleg yw dadorchuddio hen wrthrychau a darganfod eu hanes er mwyn dysgu am bobl oedd yn byw yn y gorffennol.

# Gwreiddiau

## Tariannau a Thrysor

Allwch chi weld y darian replica yng Nghanolfan Ddarganfod Clore?

Pa 3 deunydd gafodd eu defnyddio i'w chreu?

Ewch i oriel 'Gwreiddiau' a chwiliwch am gelc 'Tal-y-Llyn'. Fyddwn ni byth yn gwybod yn iawn beth yw ystyr y patrymau a'r addurniadau ar y gwrthrychau yma. Efallai eu bod yn rhoi amddiffyniad ysbrydol i'w perchnogion. Os fyddech chi'n paratoi am frwydr, sut fyddech chi'n addurno'ch tarian? Tynnwch lun ohoni yma:



# Mae hanes gan bob gwrthrych

**Mae gan bob gwrthrych a weloch chi heddiw ei hanes. Dewiswch eich ffefryn ac adrodd ei hanes.**

Meddyliwch am........
O ble ddaeth eich gwrthrych?
Pwy wnaeth ei ddarganfod?
Yw e'n wrthrych naturiol neu wedi ei greu gan ddyn?
Pa mor hen yw'r gwrthrych?
At beth fyddai'n cael ei ddefnyddio?
Pwy oedd ei berchennog?
Oedd e unwaith yn fyw?